

Ffurflen gais ar gyfer Grant Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg Welsh-language Technology and Digital Media Grant Application Form

1: MANYLION YR YMGEISYDD APPLICANT DETAILS

1.1 Teitl y prosiect Project Title	Ap Canu
1.2 Cyfanswm y grant y gwneir cais i Lywodraeth Cymru amdano Total Welsh Government grant sought	£22,300.00
1.3 Enw'r sefydliad Name of organisation	Cais mewn partneriaeth rhwng Menter Iaith Maelor a Menter Iaith Sir y Fflint (Menter Iaith Maelor yn arwain)
1.4 Enw'r prif gyswllt a'i rôl yn y sefydliad Name of main contact and role within the organisation	Gill Stephen
1.5 Cyfeiriad a chod post Address including postcode	Corlan, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, CH7 1XP
1.6 Ffôn Tel no	01352 744040
1.7 E-bost E-mail	gill@menteriaithsiryfflint.co.uk
1.8 Gwefan Website	www.mentrauiaith-gogledd.com
1.9 Math o sefydliad Type of organisation (cyhoeddus, preifat neu trydydd sector) (public, private or third sector)	Trydydd Sector
1.10 Rhif cofrestredig y cwmni neu elusen Company or charity registration number (os yn berthnasol / if relevant)	05892552

2: EICH PROSIECT YOUR PROJECT

2.1 Pa fath o brosiect ydych chi'n gwneud cais am arian i'w ddatblygu?

What type of project are you applying for funding to develop?

Datblygu Ap Develop an App ☒ iOS ☒ Android ☐ WindowsMobile ☐ Arall/Other.....	Datblygu gwefan Develop a website ☐	Datblygu meddalwedd i atgyfnerthu isadeiledd Develop software to reinforce infrastructure ☐	Marchnata/Codi ymwybyddiaeth Marketing/Awareness Raising ☐
Arall/Other (disgrifiwch/ please describe) 			

Disgrifiad o'r prosiect Project description

2.2 Rhowch ddisgrifiad byr o'ch prosiect arfaethedig. Nodwch yr hyn y bwriedir cyflawni gyda'r grant, nod ac amcanion y gwaith yn ogystal â'r canlyniadau y dymunwch eu gweld. (Cyfeiriwch at y ddogfen "Asesu eich cais" er mwyn sicrhau eich bod yn cyflwyno digon o wybodaeth i'n galluogi i werthuso eich cais).

Dyma rai enghreifftiau o bethau pwysig i'w nodi:

- pa systemau gweithredu neu blatfformau y bydd eich cynnyrch yn eu defnyddio;
- sut y byddwch chi'n rhannu'r dechnoleg;
- pwy fydd yn berchen ar yr hawlfraint;
- unrhyw drydydd partïon sydd â buddiant yn neu'n berchen ar yr eiddo deallusol, neu rannau ohono;
- manylion trwyddedu;
- a ydy'r cais yn seiliedig ar dyfynbrisau gan gwmnïau allanol?
- hyd oes y cynnyrch, gyda manylion unrhyw gynllun i gynnal y gwasanaeth tu hwnt i gyfnod y grant, os yn berthnasol;
- cost eich cynnyrch i'r cyhoedd, os yn berthnasol.

Please provide a short description of your proposed project. Note what you want to do achieve with the grant, your aims and objectives, as well as the desired outcomes you'd like to see. (Please refer to the document "Assessing your application" to ensure that you provide adequate information to enable us to evaluate your application)

Examples of important information to note:

- which operating systems or platform your product will use;
- how you intend to share the technology;
- who will own the copyright;
- any third parties with an interest in or ownership of the IP, or parts of it;
- licensing details;
- have you based budget on estimates from external suppliers?
- the lifespan of the product, with details of plans to maintain the service beyond the lifespan of the grant, if applicable;
- cost to end-user, if applicable.

Yn gweithio ar y cyd â Menter Iaith Sir y Fflint a CânSing, mudiad sy'n hyrwyddo manteision canu ac yn creu adnoddau addysgol i annog plant i ganu, a thrwy ymgynghoriad â TWF, byddwn yn datblygu ap canu i fabanod, plant ifanc a'u teuluoedd. Fe fyddai hwn yn adnodd gwerthfawr i deuluoedd dwyieithog a di-gymraeg sy'n dewis magu eu plant trwy gyfwng y Gymraeg. Mae canran uchel o deuluoedd o'r fath yn yr ardal hon a llawer iawn o ardaloedd eraill ledled Cymru erbyn hyn. Un o'r heriau mwyaf maent yn ei wynebu yw ceisio defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant ar yr aelwyd tu allan i sefyllfa addysg ffurfiol, ac un o'r dulliau mwyaf hwyliog o drosglwyddo geirfa ac iaith newydd i blant bychain yw trwy ganu.

Gan ddefnyddio arbenigedd CânSing ynglŷn â hawlfraint a recordio sain a gweithio gyda chantorion, mi fyddwn yn creu ap gydag oddeutu 20/25 o hwiangerddi a chaneuon syml adnabyddus i blant. Bydd y cwmni sydd yn datblygu'r apiau'n gyfrifol am yr holl drwyddedau.

Bydd modd i rieni a phlant gyd-wrando a chyd-ganu hwiangerddi traddodiadol megis 'Dau gi bach', a 'Mi welais Jac-y-do' yn ogystal â chaneuon poblogaidd syml sy'n datblygu patrymau iaith, fel 'Deg banana melyn', a 'Mr Hapus ydw i'.

Bydd yr ap ar gael ar ffonau symudol a dyfeisiau tabled (ar blatfform iPhone ac android). Bydd modd clicio ar eiriau penodol er mwyn gallu eu clywed yn cael eu hynganu a hefyd cael cyfieithiad os oes ei angen. Tra bydd y caneuon yn cael eu chwarae bydd lluniau animeiddiedig deniadol rhyngweithiol i blesio'r plant, datblygu sgiliau "fine motor" ac ategu at yr holl brofiad

Dengys gwaith ymchwil Beaufort Research (2013) 'Ymchwilio i ddefnydd iaith siaradwyr Cymraeg yn eu bywyd bob dydd' fod y defnydd a wenir o apiau Cymraeg yn isel o'i gymharu â'r defnydd eang o apiau Saesneg. Y nod yw newid y tuedd greddfod hwn o ddefnyddio apiau Saesneg gan greu mwy o gynnwys newydd deniadol, er mwyn sefydlu arferion defnydd newydd ymysg y genhedlaeth iau, gan gyflwyno'r dechnoleg diweddaraf o'r cychwyn cyntaf.

Dyma adnodd digidol arloesol, defnyddiol fydd yn cefnogi amser canu, yn cynorthwyo rhieni di-Gymraeg i ddysgu geiriau a chynyddu eu hyder. Yn ogystal â defnyddio'r adnodd newydd hwn ar yr aelwyd fe fydd hefyd yn galluogi rhieni a gofawyr i ymuno mewn a mwynhau'r sesiynau canu sy'n cael eu cynnal yn y cylchoedd Ti a Fi, y llyfrgelloedd neu mewn gweithgareddau eraill megis sesiynau Amser Rhigwm a drefnir gan y Fenter Iaith neu TWF.

Bydd dewis y caneuon mwyaf poblogaidd, sydd ag apêl genedlaethol yn golygu fod yr ap yma yn mynd i fod yn berthnasol i Gymru gyfan yn y pendraw, ac y gall rieni ym mhob cwr o Gymru, a thu hwnt fanteisio o'i ddefnyddio.

Byddwn yn cynnal ymgyrch hyrwyddo gan gynnal sesiynau canu mewn canolfannau amrywiol, mewn meithrinfeydd a sefydliadau gofal plant gan ddefnyddio pecyn adnoddau pwrpasol, e.e. cardiau fflach, iPad i arddangos yr ap, pypedau a sticeri. Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau rhannu gwybodaeth er mwyn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r ap a'r pecyn adnoddau yn genedlaethol mewn cydweithrediad â MIC (Mentrau Iaith Cymru) ar gyfer holl Fentrau Iaith Cymru, a hefyd yng Nghynadleddau Cenedlaethol Swyddogion Maes Twf ac Athrawon Bro Cymru.

Tua 500 o eiriau / Around 500 words

2.3 Dyddiad yr allbwn cyntaf a'r olaf: (disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2015-16 – nodwch yma os na fydd hyn yn bosibl a pham. Byddai prosiectau sy'n para tua 6 mis yn ddelfrydol).

Date of 1st and last output: (we expect the project to be completed in the 2015-16 financial year – please note here if this is not possible and why. Projects of around 6 months would be ideal).

Disgwylir y bydd y fersiwn cyntaf o'r ap yn barod i gael ei dreialu erbyn diwedd Ionawr, er mwyn lansio ar Ddydd Gŵyl Dewi (Mawrth 1af, 2016). Rhydd hyn amser i ni wirio unrhyw wallau ar yr ap, cyn lansio, a threfnu taith hyrwyddo. Bydd y deynyddiau marchnata wedi cwblhau ac i gyd yn barod ar gyfer y lansiad ar Fawrth y 1af.

Dim mwy na 200 o eiriau / No more than 200 words

2.4 Disgrifiwch y farchnad ar gyfer eich cynnyrch neu wasanaeth, ynghyd â gwybodaeth am y gynulleidfa darged, hygyrchedd y cynnyrch, a phwy fydd yn elwa ar y gwasanaeth/cynnyrch. Os yn bosibl, dylech gynnwys amcangyfrif o faint o bobl a allai/a fydd yn elwa ar y cynnyrch, ee pob cyfreithiwr/aig sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg, sef tua 300 o bobl.

Please describe the market for your product or service, along with information on the target audience, will the products be accessible, who will benefit from the services/products. If possible please include an estimate of how many people may/will benefit from your product e.g. every lawyer who speaks or is learning Welsh which equates to around 300 people

Bydd y grwpiau canlynol yn elwa o'r prosiect hwn:

- Plant ifanc
- Teuluoedd a rhieni (yn enwedig teuluoedd dwyieithog a rhieni sy'n dysgu'r Gymraeg)
- Meithrinfeydd
- Sefydliadau gofal plant
- Gofalwyr plant
- Cylchoedd Ti a Fi
- Cylchoedd Meithrin
- Dosbarthiadau Meithrin mewn ysgolion ar hyd ac ar led Cymru
- Grwpiau rhieni a phlant
- Canolfannau teuluoedd

Er mwyn dewis y caneuon byddwn yn cynnal ymgynghoriad gyda grwpiau mamau a babanod, megis Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin, meithrinfeydd a gofalwyr plant, gan ddewis o blith yr hen ffefrynnau a'r caneuon rheini sy'n gwneud i rieni gwingo yn eu seddi achos eu bod yn cael trafferth cofio'r geiriau yn iawn! Bydd Twf yn bartner allweddol i ni yn ystod y cyfnod ymgynghori, a byddwn yn trafod cynnwys yr ap gyda'r mudiad yn ganolog, fel ei fod yn cefnogi gwaith Swyddogion Maes Twf, ac yn adnodd defnyddiol i hyrwyddo gyda rhieni sy'n mynychu Amser Twf a Chyrsiau Tylino Babi.

Mae'n anodd amcangyfrif faint o blant a theuluoedd yn union fydd yn elwa trwy lawrlwytho'r ap gan y ei fod yn mynd i fod ar gael ar bob plattform. Serch hynny mae'n debygol y bydd cannoedd os nad miloedd o blant a theuluoedd ar eu ennill yn y pendraw. Diwedd fis Tachwedd 2014, lansiodd Menter Iaith Sir y Fflint 4 ap Magi Ann i helpu plant i ddysgu darllen, ac yn benodol i helpu rhieni di-Gymraeg, dysgwyr a'r rheiny sy'n ddi-hyder yn eu Cymraeg. Cynulleidfa darged tebyg sydd gennym mewn golwg ar gyfer yr ap yma hefyd. Hyd yn hyn lawr lwythwyd Apiau Magi Ann 3,200 o weithiau (mewn llai nag 8 wythnos) a hynny cyn cychwyn ymgyrch farchnata/hyrwyddo cenedlaethol. Ein nod yw cyrraedd niferoedd tebyg gyda'r Ap Canu.

Byddai'r ap yn sicr yn datblygu iaith plant a rhieni ar y cyd ac yn adnodd heb ei ail. O'n profiad o weithio gyda theuluoedd yn yr ardal ers blyneddau rydym yn ymwybodol iawn o bryderon rheini wrth ystyried addysg Gymraeg. Hynny yw sut i helpu plant i ddatblygu eu Cymraeg, a sut i roi profiadau Cymraeg i'w plant o fewn y cartref fel rhan o'u bywydau beunyddiol os nad ydynt siarad Cymraeg eu hunain. Mi fyddai'r ap hwn, heb os, yn gymorth gyda'r broses hon, ac yn sicr yn magu hyder rhieni sydd â thipyn o Gymraeg, sy'n dysgu Cymraeg, neu sy'n dioddef o ddiffyg hyder i ddefnyddio eu Cymraeg. Rhagwelwn y bydd nifer o ddysgwyr y Gymraeg (er nad yw maes Cymraeg i Oedolion yn gynulleidfa darged bwriadol) hefyd yn elwa o ddefnyddio'r ap.

2.5 Rhowch grynodeb o waith eich sefydliad. Cyfeiriwch at ddogfennau eraill sy'n cefnogi'ch cais lle bo'n berthnasol (gallwch ddarparu dolenni gwe i'r rhain, os ydych yn dymuno)

Please provide a summary of your organisation's work. Please refer to other documents which support your application where relevant (you can provide a web link to these, if you wish)

Sefydliad ddim er elw ydy Menter Iaith Sir y Fflint a'i phrif nod yw hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol, gan sicrhau bod yr iaith yn dod yn rhan ganolog o fywyd bob dydd y sir a bod pob aelod o'r gymuned yn rhannu'r cyfrifoldeb am ei dyfodol a'i ffyniant. Rydym yn gweithio'n agos ac mewn partneriaeth gydag Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint a nifer helaeth o sefydliadau, mudiadau a darparwyr eraill o fewn y sir i greu cyfleoedd i blant, pobl ifanc, oedolion a dysgwyr y Gymraeg ddefnyddio'r iaith tu allan i oriau gwaith a muriau'r ysgol. Rydym hefyd yn gweithio gyda busnesau a chwmnïau er mwyn codi ymwybyddiaeth o werth economaidd y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig i'r economi leol, â'u hannog i gydnabod dwyieithrwydd fel sgil ychwanegol ymhlith y gweithlu a'u cefnogi wrth iddynt gymryd y camau cyntaf tuag at ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Amcanion Strategol ar Gyfer Gweithredu

Er mwyn gweithredu datganiad cenhadaeth y Fenter, rydym wedi mabwysiadu amrediad o amcanion strategol tymor hir gyda phwyntiau gweithredu i'w cyflawni drwy ystod o raglenni, prosiectau a gweithgareddau. Mi fyddwn yn sicrhau bod strategaeth y Fenter yn plethu i strategaethau a chynlluniau sefydliadau eraill sydd hefyd yn gweithredu yn y maes cynllunio ieithyddol, megis Strategaethau Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a'r cynghorau sirol (y Fflint a Wrecsam), Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru a'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru ac, wrth gwrs, Strategaeth Llywodraeth Cymru - iaith fyw: iaith byw, a iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen.

Byddai'r prosiect hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni y canlyniadau isod o *Strategaeth y Gymraeg iaith fyw: iaith byw* a'r datganiad polisi *iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen*.

1. Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ymhlith trigolion, cymdeithasau a sefydliadu lleol;

Dyma yw prif nod y prosiect hwn.

2. Cynnal prosiectau penodol i ateb yr anghenion lleol a, lle bo'n briodol, cefnogi cymunedau penodol;

Mae gan siroedd y Fflint a Wrecsam ganran uchel o drigolion di-Gymraeg, rhywbeth sy hefyd yn wir o lawer iawn o ardaloedd eraill ledled Cymru erbyn hyn. Un o'r heriau fwyaf maent yn ei wynebu yw ceisio defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant ar yr aelwyd tu allan i sefyllfa o addysg ffurfiol.

3. Cefnogi arferion iaith plant a phobl ifanc;

Mae'r ap yn targedu defnydd o'r Gymraeg gyda plant. Mae apiau o'r fath yn cyflwyno'r syniad i blant ifanc iawn fod y Gymraeg yn iaith hollol naturiol i'w defnyddio gyda thechnoleg fel ym mhob agwedd arall ar fywyd.

4. Creu cyfleoedd i siaradwyr fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg;

Mi fyddai'r ap hwn yn gymorth i fagu hyder mewn rhieni sydd â thipyn o Gymraeg, sy'n dysgu Cymraeg, neu sy'n dioddef o ddiffyg hyder i ddefnyddio eu Cymraeg. Rhagwelwn y bydd nifer o ddysgwyr y Gymraeg (er nad yw maes Cymraeg i Oedolion yn gynulleidfa darged bwriadol) hefyd yn elwa o ddefnyddio'r ap.

5. Defnyddio cyfryngau amrywiol a chyfoes i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol;

Dyma adnodd fydd yn cyflwyno'r syniad i blant ifanc iawn fod y Gymraeg yn iaith hollol naturiol i'w defnyddio gyda thechnoleg fel ym mhob agwedd arall ar fywyd yn y dyfodol.

6. **Annog a chefnogi teuluoedd i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg;** Dyma adnodd digidol arloesol fydd yn cefnogi ac yn cynorthwyo rhieni di-Gymraeg i ddysgu geiriau Cymraeg ac yn cynyddu eu hyder i'w siarad.
7. **Cyd-weithio a chreu strwythurau mwy strategol a chynaliadwy;** Wrth i Fenter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor gydweithio i ddatblygu'r prosiect dros y ddwy sir gyfagos bydd y prif gostau'n sylweddol llai na tasai'r ddwy Fenter yn mynd ati i gynnal yr un fath waith ar wahân ar adegau gwahanol. Bydd rhannu'r wybodaeth yn genedlaethol mewn cydweithrediad â MIC (Mentrau Iaith Cymru) ar gyfer holl Fentrau Iaith Cymru er mwyn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r ap a'r pecyn adnoddau yn sicrhau y gwerth gorau am y fuddsoddiad. Yn ogystal bydda'r adnodd newydd hwn yn cefnogi gwaith mudiadau hyrwyddo'r Gymraeg eraill trwy galluogi rhieni a gofalwyr i ymuno mewn a mwynhau sesiynau canu sy'n cael eu cynnal yn lleol mewn cylchoedd Ti a Fi, y llyfrgelloedd neu mewn gweithgareddau eraill megis sesiynau Amser Rhigwm a drefnir gan y Fenter Iaith leol neu TWF.

Bydd y cais hefyd yn cefnogi *Cynllun Gweithredu Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg*, Llywodraeth Cymru, ac yn benodol Thema 3: Ysgogi datblygiad o becynnau meddalwedd a gwasanaethau digidol Cymraeg newydd.

2.6 Disgrifiwch sut y byddwch yn casglu gwybodaeth er mwyn monitro cynnydd yn erbyn eich canlyniadau a'ch targedau.

Describe how you will collect information in order to monitor progress against your outcomes and targets

Mae systemau gwerthuso cynhwysfawr gennym fel Menter ar gyfer unrhyw brosiectau, a byddwn yn gallu monitro data'r nifer o bobl sy'n lawr-lwytho'r ap, yn ogystal â chasglu barn defnyddwyr wrth gynnal sesiynau a gweithdai hyrwyddo trwy sgysiau wyneb yn wyneb a thrwy holiaduron.

2.7 Rhowch grynodeb o'r systemau rheoli y byddwch yn eu defnyddio i reoli'r prosiect a'r gyllideb, a sicrhau ei fod yn cyrraedd ei amcanion.

Provide a summary of the management systems you will use to manage the project and the budget, and ensure that it meets its objectives.

Systemau Rheoli :-

Fe fyddai'r prosiect a'r gyllideb yn cael eu rheoli'n unol â systemau mewnol Mentrau Iaith Sir y Fflint – sef y swyddogion yn atebol i'r Prif Swyddog (a fyddai gyda'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith), a'r Prif Swyddog yn atebol i'r Pwyllgor Rheoli. Mae Rhaglen Weithredu Menter Iaith Sir y Fflint 2012 - 2015 yn rhoi crynodeb o'r camau y bwriedir eu cymryd a'r partneriaid allweddol tebygol, ynghyd â'r ffynonellau ariannol tebygol ac amserlen er mwyn cyflawni'r canlyniadau. Mae gan y Fenter system cynllunio digwyddiadau trwyadl, sy'n cynnwys cyflwyno ffurflenni pro forma ar gyfer bob un o'r prosiectau i Bwyllgor Rheoli'r Fenter. Bydd y ffurflen yn nodi yn fanylach y rhesymeg y tu ôl i bob prosiect; h.y. cost, amserlen, thargedau a'r chanlyniadau tebygol, ynghyd â chysylltiadau a synergedd gyda strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol eraill. Mae hefyd yn ofynnol i'r swyddog sy'n gyfrifol am y prosiect gadw taflen rheoli prosiect (yn enwedig os oes mwy nag un partner yn cyd-drefnu).

Cyllid:-

Mae'r Fenter yn gweithredu Cynllun Dirprwyaeth Ariannol sydd yn gosod uchafswm ariannol gwariant swyddogion ac aelodau o'r Pwyllgor Rheoli. Golyga hyn bod rheolaeth briodol o'r cyllid. Fel rhan o ganllawiau cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig, mae'r broses caffael yn golygu bod rhaid i ni gael mwy nag un dyfynbris ar gyfer unrhyw wasanaeth neu eitem. Mae hyn yn sicrhau gwerth am arian ac yn broses hollol dryloyw. Rydym yn dilyn y patrwm hwn ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cyllido trwy ffynonellau eraill hefyd.

Gweithredu, Monitro ac Adolygu:-

Byddai pob agwedd o unrhyw brosiect yn cael eu harwain gan gorff arweiniol a fydd yn gyfrifol am gyflawni'r allbynnau unigol o fewn cyd-destun ehangach y strategaeth gyfan. Rhagdybir mai'r Fenter fydd y corff arweiniol yn y mwyafrif helaeth o achosion ac y fydd yn rheoli'r adnoddau a fydd yn angenrheidiol i weithredu a sicrhau bod y prosiect yn llwyddo. Darperir gwerthusiad ar gyfer pob gweithgaredd i'r Pwyllgor Rheoli a'r grwpiau llywio perthnasol er mwyn adrodd yn ôl ar lwyddiant y prosiect o ran targedau a chanlyniadau a chostau yn nodi ystadegau, cryfderau, gwendidau, dulliau mesur effaith, deilliannau a chanlyniadau unrhyw weithgaredd.

Mae'r Fenter wedi arfer derbyn grant gan Lywodraeth Cymru trwy'r Cynllun Grantiau i Hybu'r Gymraeg, ac yn gyfarwydd gyda systemau monitro'r Llywodraeth.

2.8 Sut clywsoch chi am y grant?

How did you hear about the grant?

Yn uniongyrchol gan y Llywodraeth

3. ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU'R PROSIECT

OUTPUTS AS A RESULT OF THE PROJECT

3.1 Sut y bydd y gweithgareddau a nodwyd yn eich cais yn cyfrannu at wireddu amcanion ['Cynllun Gweithredu Technoleg a'r Cyfryngau Digidol Cymraeg'](#)? Dewiswch y thema/themâu sy'n briodol i'r prosiect o'r rhestr isod. *Gweler atodiad 1 o'r ddogfen 'Canllawiau a meini prawf ar gyfer y cynllun grant' am wybodaeth ynghylch targedau CAMPUS.*

How will the activities set out in your application contribute to delivering the [Welsh Language, Technology and Digital Media Action Plan](#) objectives? Select the theme/themes relevant to your project from the list below. *See attachment 1 of the 'Guidance and Criteria for the Grant Scheme' document for information about SMART objectives.*

Thema Cynllun Gweithredu Technoleg a Chyfr yngau Digidol Cymraeg Theme of the Welsh Language Technology and Digital Media Action Plan	Y canlyniadau ieithyddol yr hoffech eu sicrhau The linguistic results you would like to ensure	Targedau CAMPUS i wireddu'r canlyniadau hyn. SMART objectives to realise these results.	Pryd y byddant yn cael eu cyflawni When they will be delivered
1. Marchnata a chodi ymwybyddiaeth o'r dechnoleg a'r cynnwys digidol sydd ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd; Marketing and raising awareness of the technology and digital content which is currently available in Welsh;	☐	☐	
2. Ysgogi'r prif gwmnïau technoleg i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir yn y Gymraeg ganddynt; Motivating the main technology companies to encourage an increase in the Welsh language provision offered by them;	☐	☐	
3. Ysgogi datblygiad pecynnau meddalwedd a gwasanaethau digidol Cymraeg newydd; Encouraging the development of new Welsh language software applications and digital services;	a) cynyddu faint o feddalwedd a gwasanaethau ar-lein sy ar gael yn y Gymraeg; b) cynyddu defnydd o feddalwedd a gwasanaethau ar-lein yn y Gymraeg;	Creu gwasanaeth Cymraeg digidol newydd a'i farchnata i'r cyhoedd	Erbyn Mawrth 2015.

	c) normaleiddio defnydd o feddalwedd Cymraeg		
4. Ysgogi, creu, rhannu a defnyddio cynnwys digidol Cymraeg; Stimulating the creation, sharing and consumption of Welsh language digital content;			
5. Cefnogi arfer da yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Supporting good practice in the public, private and third sectors.			

4. MANYLION AELODAU'R CONSORTIWM (PARTNER 2) DETAILS OF MEMBERS OF THE CONSORTIUM (PARTNER 2)

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan fwy nag un sefydliad, rhowch fanylion y sefydliadau sy'n rhan o'r consortiwm isod. (Copiwch y tabl hwn fel bo angen)

If the application is being presented by more than one organisation, please provide details of the organisations that make up the consortium below. (Copy this table as needed).

4.1 Enw'r sefydliad Name of organisation	Menter Iaith y Fflint
4.2 Cyfeiriad a chod post Address including postcode	Corlan, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, CH7 1XP
4.3 Gwefan Website	www.mentrauiath-gogledd.com
4.4 Enw'r swyddog cyswllt fydd yn cydlynu gwaith y prosiect ar ran y sefydliad ac E-bost Contact name for person coordinating the project work on behalf of the organisation and E-mail	Gill Stephen
4.5 Swydd Position	Prif Swyddog
4.6 Ffôn Tel no	01352 744040
4.7 E-bost E-mail	gill@menteriaithsiryfflint.co.uk
4.8 Profiad perthnasol i'r prosiect Experience relevant to the project	Mae'r Fenter yn derbyn grant craidd gan Lywodraeth Cymru trwy'r Cynllun Grantiau i Hybu'r Gymraeg, ac yn gyfarwydd gyda systemau monitro'r Llywodraeth. Yn 2014-2015 derbyniodd y Fenter grant gan Cadwyn Clwyd, trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig i ddatblygu Apiau Magi Ann. Mae profiad perthnasol a'r arbennigedd felly gan swyddogion y Fenter o'r llwyth gwaith sydd ynghlwm â datblygu, cynhyrchu, a lansio apiau Cymraeg yn llwyddiannus.

4.9. MANYLION AELODAU'R CONSORTIWM (PARTNER 3) DETAILS OF MEMBERS OF THE CONSORTIUM (PARTNER 3)

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan fwy nag un sefydliad, rhowch fanylion y sefydliadau eraill sy'n rhan o'r consortiwm isod. (Copiwch y tabl hwn fel bo angen)

If the application is being presented by more than one organisation, please provide details of the other organisations that make up the consortium below. (Copy this table as needed).

4.10 Enw'r sefydliad Name of organisation	CânSing
---	---------

4.11 Cyfeiriad a chod post Address including postcode	CaST Cymru (Cymunedau a 'Sgolion fel Tîm) Uned 1, Stiwdios y Fforest Ceinws Machynlleth Powys SY20 9HA
4.12 Gwefan Website	http://www.cansing.org.uk
4.13 Enw'r swyddog cyswllt fydd yn cydlynu gwaith y prosiect ar ran y sefydliad ac E-bost Contact name for person coordinating the project work on behalf of the organisation and E-mail	Suzanne Barnes
4.14 Swydd Position	Rheolwr Prosiect CânSing
4.15 Ffôn Tel no	07701 079 244
4.16 E-bost E-mail	suzanne.barnes@cansing.org.uk
4.17 Profiad perthnasol i'r prosiect Experience relevant to the project	CaST Cymru, manages the “CânSing” programme across Wales. “CânSing” is a national singing initiative which was piloted and developed over a five year period, funded by Welsh Government Education Department, Curriculum Division Grant (2009 - 2014). Since it's inception, CânSing has developed into a highly respected educational programme. The independent evaluation of the project, carried out in 2010/11, reported “strong evidence of its effectiveness and popularity with both schools and children and young people”. The CânSing programme has developed a number of strengths during the period including: • An established brand • A very varied repertoire • A strong following • Positive links with key partners including Education, Music Services in all local authorities and a range of third sector colleagues (e.g. Ty Cerdd, Welsh National Opera, Trac Cymru) Currently there are more than 200 songs, vocal warm ups, exercises and tutorials which schools can access via the dedicated, bilingual, CânSing website (www.cansing.org.uk). We are keen to work in partnership with Menter Iaith in developing the music for the proposed “App”. We are highly experienced in arranging and recording bilingual songs for children; CânSing has recently been shortlisted for a prestigious Music Teacher Award (2015) in the “Best Musical Initiative” Category, further recognising the contribution it makes to

the provision of Music Education landscape in the UK.

4.9. MANYLION AELODAU'R CONSORTIWM (PARTNER 4) DETAILS OF MEMBERS OF THE CONSORTIUM (PARTNER 4)

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan fwy nag un sefydliad, rhowch fanylion y sefydliadau eraill sy'n rhan o'r consortiwm isod. (Copïwch y tabl hwn fel bo angen)

If the application is being presented by more than one organisation, please provide details of the other organisations that make up the consortium below. (Copy this table as needed).

4.10 Enw'r sefydliad Name of organisation	TWF
4.11 Cyfeiriad a chod post Address including postcode	Twf, Swyddfa'r Gogledd Uned 95 Llys Bowen Ffordd William Morgan Parc Busnes Llanelwy Llanelwy Sir Ddinbych LL17 0JE
4.12 Gwefan Website	www.twfcymru.com
4.13 Enw'r swyddog cyswllt fydd yn cydlynu gwaith y prosiect ar ran y sefydliad ac E-bost Contact name for person coordinating the project work on behalf of the organisation and E-mail	Dinah Ellis
4.14 Swydd Position	Cydlynnydd Cenedlaethol Twf
4.15 Ffôn Tel no	01745 585120
4.16 E-bost E-mail	dinah.ellis@iaith.eu
4.17 Profiad perthnasol i'r prosiect Experience relevant to the project	Arbennigedd o weithio gyda'n cynulleidfya darged – teuluoedd cymysg eu iaith. Profiad eang o wneud gwaith maes Cynllunio leithyddol dwys gyda teuluoedd yng Nghymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

5. GWYBODAETH ARIANNOL FINANCIAL INFORMATION

5.1: Gwybodaeth ariannol: costau staff

Cyflogau: nodwch y manylion canlynol ar gyfer unrhyw swyddi y gwneir cais ar eu cyfer. Nodwch gyfanswm y cyflogau ynghyd â chyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer yswiriant gwladol a phensiwn.

5.1: Financial information: staff costs

Salaries: please provide the following details for any posts for which this application is being made. State the sum total of salaries together with employer contributions for National Insurance and pension.

Swydd Post	Costau cyflog llawn (gan gynnwys pensiwn ac yswiriant gwladol) Total Salary Cost (including pension and national insurance) £	Cyfraniad grant y gwneir cais i Lywodraeth Cymru amdano Contribution of Welsh Government grant sought £	Grant Llywodraeth Cymru fel % The Welsh Government's grant as a %
	£0.00	£0.00	0%
	£0.00	£0.00	0%
	£0.00	£0.00	0%
	£0.00	£0.00	0%
	£0.00	£0.00	0%
	£0.00	£0.00	0%
	£0.00	£0.00	0%
	£0.00	£0.00	0%
	£0.00	£0.00	0%
	£0.00	£0.00	0%
	£0.00	£0.00	0.00%
Cyfanswm costau swyddi/Total cost of posts	£0.00	£0.00	0.00%



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

5.2: Costau eraill 5.2: Other costs	Disgrifiad o'r gost Description of cost	Cost llawn Full costs	Grant Llywodraeth Cymru Welsh Government grant	Grant Llywodraeth Cymru fel % Government's grant as a %
1. Costau swyddfa (ee rhent, trydan). Os yw eich costau swyddfa yn fwy na 10% o gyfanswm y cyflogau bydd angen i chi restru'r holl gostau rhedeg. <i>Office Costs (e.g. rent, electricity). If your office costs are more than 10% of the salary totals you will need to list all of your running costs.</i>		£0.00	£0.00	0.00%
		£0.00	£0.00	0.00%
		£0.00	£0.00	0.00%
		£0.00	£0.00	0.00%
		£0.00	£0.00	0.00%
		£0.00	£0.00	0.00%
		£0.00	£0.00	0.00%
		£0.00	£0.00	0.00%
2. Costau gweithgareddau <i>Cost of activities</i>	Datblygu ap, costau stiwdio, cerddorion, graffeg, dyluniad, trwydedau.	£18,500.00	£18,500.00	100%
	Adnoddau hyrwyddo/gweithdai, e.e. pypedau / sticeri / cardiau fflach canu/ iPad	£1,500.00	£1,500.00	100%
	Marchnata cenedlaethol	£1,200.00	£1,200.00	100%
	Digwyddiad Lansio	£300.00	£300.00	100%
	Costau teithio datblygu, hyrwyddo/hyfforddi	£550.00	£550.00	100%
	Costau gweinyddol	£250.00	£250.00	100%
		£0.00	£0.00	
		£0.00	£0.00	
Cyfanswm costau Total costs		£22,300.00	£22,300.00	100%
5.3: Cyfansymiau 5.3: Totals		Cost llawn Full costs	Grant Llywodraeth Cymru	Grant Llywodraeth Cymru fel %



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

and do not have the resources to undertake work and receive payment afterwards. Provision of funding for committed expenditure may be considered in advance of payment but only where evidence of need is clearly established. If payment in advance is required then please fill Annex 1

Bydd angen taliad o flaen llaw - rydym wedi cwblhau Atodiad 1

5.6 Sut hoffech dderbyn y grant? Cyfres o randaliadau yn seiliedig ar wariant neu ar ddiwedd y project?

5.6 How would you like to receive the grant? A series of instalments based on expenditure or on completion of the project?

Cyfres o randaliadau yn seiliedig ar wariant

5.7 Faint o gymorth cyhoeddus ydych wedi'i dderbyn o dan y Rheoliad De Minimis yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd flaenorol? (Os ydych wedi derbyn dros €200,000 mewn arian de minimis yn ystod y tair blynedd flaenorol, nid ydych yn gymwys i dderbyn grant gan Lywodraeth Cymru o dan y cynllun hwn).

How much public support have you received under the de minimis Regulation in the current and previous two fiscal years? (Please note that if you have received over €200,000 in de minimis funding during the last three fiscal years, you are not eligible to receive grant funding from the Welsh Government under this scheme).

Dyddiad Date	Ffynhonnell Source	Swm £ Amount £
2012-2013	Coleg Iâl	£3238.45
Ionawr 2011-Mehefin 2013	Cadwyn Clwyd - nid yw Cadwyn Clwyd yn sicr os yw'r holl nawdd yma yn dod o dan reolau De Minimus!	£103,720.92
	CYFANSWM	£106,959.37



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

5.8 Cadarnhewch fod eich sefyllfa ariannol yn galluogi'ch sefydliad i barhau yn ystod 2015-16 <i>Please confirm that your financial situation will allow your organisation to operate as a going concern during 2015-16</i>	Ydy/Yes
5.9 Cadarnhewch nad oes unrhyw un o swyddogion neu aelodau eich sefydliad yn cael ei amau, neu wedi'i gael yn euog, o dwyll neu unrhyw drosedd berthnasol arall. Mae'n rhaid i chi hysbysu Llywodraeth Cymru ar unwaith os na fedrwch wneud hyn. Cliciwch y blwch ar y dde. <i>Please confirm that no official or member of your organisation is being suspected, or has been found guilty of, fraud or any other relevant offence. You must inform the Welsh Government immediately if you are unable to do this. Please click the box on the right</i>	Neb o dan amheuaeth neu wedi'i gael yn euog/Nobody under suspicion or been found guilty



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHESTR WIRIO CHECKLIST

1. **A ydych wedi sicrhau eich bod yn gymwys i ymgeisio am y grant?** *Have you checked that you are eligible to apply for this grant?*
2. **A ydych wedi cwblhau pob adran berthnasol yn cynnwys pob sefydliad sy'n rhan o'r cais?** *Have you completed all relevant sections, including all organisations that are part of the application?*
3. **A ydych wedi cynnwys eich cyfrifon archwiliedig diweddaraf, neu ddolen gwe iddynt? (Sector preifat a trydydd sector yn unig)** *Have you included your most recent audited accounts or a link to their location? (Private and third sector only)*
4. **A ydych wedi cwblhau'r datganiad De Minimis yn 5.7 uchod?** *Have you completed the De Minimis statement at 5.7 above?*
5. **A ydych wedi cynnwys eich cyfansoddiad, neu ddolen gwe iddo? (Sector preifat a trydydd sector yn unig)** *Have you included your constitution or a link to its location? (Private and third sector only)*

Rwy'n cadarnhau bod yr holl wybodaeth a roddir yn y ffurflen hon, ac mewn unrhyw ddeunydd ategol, yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Drwy e-bostio'r ffurflen hon at Lywodraeth Cymru, cydnabyddaf fod gennyf awdurdod llawn fy sefydliad i ymgeisio am grant gan Lywodraeth Cymru.

I confirm that all of the information given in this form and any supporting material is correct to the best of my knowledge. By e-mailing this form to the Welsh Government, I acknowledge that I have the full authority of my organisation to apply for a grant from the Welsh Government.

Enw a llofnod swyddog cyswllt yn y sefydliad:
Name and signature of contact person within the organisation:

Enw/Name: Gill Stephen

Llofnod/Signature:

Rôl o fewn y sefydliad: Prif Swyddog
Role within the organisation:

Dyddiad / Date: 29/01/2015



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfarwyddiadau

- Gofynnir i chi lenwi'r ffurflen gais yn electronig, a chynnwys dolenni i'r dogfennau a restrir yn y paragraff isod os oes copïau electronig ohonynt ar gael. Dylech e-bostio'r ffurflen gais i techcy@cymru.gsi.gov.uk erbyn canol dydd, 30 Ionawr 2015. Dylech wedyn hefyd anfon copi caled o'ch cais, wedi'i lofnodi, dim hwyrach na 13 Chwefror 2015. Anfonwch eich cais at yr Uned Iaith Gymraeg, 3ydd Llawr, Parc Cathays 2, Caerdydd, CF10 3NQ.
- Ni chaiff ceisiadau hwyr eu hystyried.
- Caiff pob cais ei dderbyn a'i asesu ar sail yr wybodaeth a ddarperir gennych. Ein bwriad yw hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad eu cais cyn diwedd Mawrth 2015.
- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadarnhau eich canlyniadau a'ch targedau yn y llythyr cynnig grant.

Instructions

- You should e-mail the form to us at techcy@wales.gsi.gov.uk by 12.00 midday, 30 January 2015. You should also send a signed hard copy of your application to us no later than 13 February 2015. Please send completed application forms to: The Welsh Language Unit, 3rd Floor, Cathays Park 2, Cardiff, CF10 3NQ.
- Late applications will not be accepted.
- Each application will be accepted and assessed on the basis of the information provided by you. We will aim to inform applicants of the result of their application during March 2015.
- Should your application be successful, your outcomes and targets will be confirmed in your grant offer letter.